**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 5 Hydref 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Rhys Pugh, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Prys Morgan, Aelod o'r Bwrdd; Gwyn Howells, Prif Weithredwr; Bryan Regan, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol a Maria Richards, Llywodraeth Cymru.

2. **Diweddariad am y Farchnad a'r Diwydiant**

3. **Diweddariad am Weithgareddau**

Cafwyd diweddariad gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol ar weithgareddau'r farchnad, y diwydiant a HCC.
Roedd y gwaith na chafodd ei gwblhau mewn perthynas â'r Rhaglen Datblygu Cig Coch bellach yn gyflawn a chyflwynwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol a'r hawliad i Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru. Canmolodd y Bwrdd y Swyddogion Gweithredol am gyflawni'r prosiect sylweddol hwn yn llwyddiannus.

- Roedd cynllunio ar y gweill ar gyfer sioeau teithiol addysgol a fyddai'n golygu bod tîm HCC yn ymgysylltu â myfyrwyr amaethyddol ynghylch rôl y sefydliad a'i weithgareddau a thrafodaeth ar gig coch a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Byddai'r sioe deithiol yn ymweld â'r colegau amaeth ledled Cymru gan gynnwys Colegau Powys, Llysfasi a Phen-y-bont (Pen-y-bont ar Ogwr). Byddai'r sioe deithiol gyntaf yn cael ei chynnal ddydd Mercher 11 Hydref 2023 yng Nglynllifon. Yn ogystal, o ganlyniad i adborth o broses ymgysylltu â'r Ardoll gyda rhanddeiliaid yn ystod 2022, roedd trefniadau ar y gweill i HCC gynnal cyfres o gyfarfodydd Fforwm Ffermwyr / Agored a fyddai'n cael eu cynnal yn y colegau amaeth yn dilyn y sesiynau gyda'r myfyrwyr. Byddai'r fforymau'n rhoi cyfle i ffermwyr ymgysylltu â HCC ynghylch y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant ac i glywed am y gwaith y mae HCC yn ei wneud. Byddai'r Cadeirydd a Swyddogion Gweithredol yn bresennol yn y fforwm ar 11 Hydref 2023.

- Roedd arolwg ar-lein HCC, Bwriadau Ffermwyr, ar gyfer 2023 bellach ar waith a'r dyddiad cau oedd dydd Llun 9 Hydref 2023. Byddai'r ddolen i'r arolwg yn cael ei e-bostio i'r Bwrdd er mwyn ei rannu â rhwydweithiau ac annog cyfranogwyr.

4. **I dderbyn cyflwyniad am Ymgyrch HCC ar gyfer Cig Eidion Cymru PGI 2023 / 2024**

Rhoddodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau drosolwg o'r gwaith a wnaed ar yr uchod hyd yn hyn, gan gynnwys manylion am yr amcanion, cynulleidfa darged, negeseuon, y cyfryngau gwahanol a delweddau enghreifftiol.  Nodwyd adborth gan y Bwrdd.

5. **I dderbyn diweddariad am drefniadau ar gyfer cynhadledd HCC, 9 Tachwedd 2023**

Rhoddodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau, ddiweddariad i'r Bwrdd o'r trefniadau a'r rhaglen ddrafft ar gyfer yr uchod.

Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach am y gynhadledd yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2023.

6. **Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

7. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023:

| | |
|---|---|
| 08:30: | Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg |
| 10:00: | Cyfarfod o Fwrdd HCC |
| 14:00: | Cyfarfod Bwrdd a chynllunio Uwch-dîm Arweinyddiaeth HCC – trefniadau ar y gweill ar gyfer y cyfarfod cynllunio. Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru maes o law. |

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**